# Cynllun Gwaith B4: GRYM Y GEMAU.

Dyma enghraifft o Gynllun Gwaith. Gallech greu un eich hun, gan ddefnyddio'r llyfr gwaith a'r adnoddau ar-lein sydd wedi'u darparu, gan ychwanegu eich syniadau a'ch adnoddau eich hun. Mae'r Cynllun Gwaith hwn yn dilyn cynllun Tymor Hir ehangach (sydd ar gael yn y ffolder adnoddau Ysgolion Cynradd) sy'n dilyn thema. Mae'n rhoi sylw i bynciau allweddol sy'n ymwneud â gamblo a chwarae gemau ar draws y pedwar Diben Addysg yng Nghymru, gan alluogi ein holl blant a phobl ifanc i fod yn: 1) Dysgwyr galluog ac uchelgeisiol 2) Cyfranwyr mentrus a chreadigol 3) Dinasyddion egwyddorol a gwybodus a 4) Unigolion iach a hyderus. Mae'n gwricwlwm sbiral, gyda phynciau a themâu allweddol yn cael eu hailystyried, tra'n cynyddu'r her, yn ehangu'r cwmpas, ac yn helpu myfyrwyr i feddwl yn fwy dwys drwy'r cyfnodau allweddol.

| | GWEITHGAREDDAU | ADNODDAU |
|---|---|---|
| 1 | **Grym y Gemau**<br>**Gweithgaredd agoriadol: Dadl Cytuno/Anghytuno**<br>• Mae chwarae gemau yn ffordd dda o dreulio eich amser<br>• Does dim risgiau wrth chwarae gemau ar-lein<br>• Mae chwarae gemau'n broffesiynol yn ddewis gyrfa da<br>• Mae chwarae gemau yn gynhwysol ac yn gymdeithasol<br>• Mae chwarae gemau ar-lein yn fwy diogel na chwarae y tu allan<br>• Dylai chwarae gemau ymwneud â sgiliau, dim prynu crwyn/pecynnau a chratiau trysor<br>**Gweithgaredd:**<br>**CYNGOR CAMPUS**<br>Pa fesurau sydd ar waith ar hyn o bryd i helpu pobl i gadw'n ddiogel wrth chwarae gemau? Ewch ati i greu adnodd cefnogi (taflen/poster ac ati) y gall pobl ifanc gael gafael arno er mwyn cael help ac arweiniad.<br><br>OPSIWN: Ewch ati i gadw dyddiadur gartref dros y pythefnos nesaf i edrych yn fanwl ar y math o weithgareddau rydych chi'n ymwneud â nhw a faint o amser rydych chi'n ei dreulio ar bob un.<br><br>**Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:**<br>CW02, CW04-05, CW09-10, CW13, CW15, CW17-18, CW20, CW26-27, CW29<br>**Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:**<br>Iechyd a Llesiant<br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | • B4G1<br>• PowerPoint B4G1 – Grym y Gemau<br>• Beiro a phapur<br>• Deunyddiau celf ar gyfer y daflen<br>• B4G1: adnodd – dyddiadur (dewisol) |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/Ebrill21

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **Lefel uwch**<br>**Gweithgaredd agoriadol: Pa gemau ydych chi'n eu chwarae?**<br>Y myfyrwyr i restru'r gemau maen nhw'n eu chwarae. Ydyn nhw'n talu i chwarae? Sut maen nhw'n dod yn eu blaenau wrth chwarae gemau? A yw mynd i lefel uwch yn gwneud iddyn nhw fod eisiau prynu eitemau mewn gemau?<br>**Gweithgaredd: Gweithgaredd ymchwil – Ymchwiliwch i gêm boblogaidd yn eich dosbarth.** Archwiliwch y tebygolrwydd o brynu eitem/chwaraewr penodol. Pa mor debygol ydych chi o gael yr 'eitem ddelfrydol'? Ewch ati i greu taflen wybodaeth i roi gwybod i chwaraewyr am y tebygolrwydd y byddan nhw'n cael yr eitem maen nhw'n dymuno ei chael.<br><br>**Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:**<br>CW02-04, CW09, CW11, CW14, CW16-18, CW27, CW29, CW33<br>**Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:**<br>Iechyd a Llesiant<br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | • B4G2<br>• PowerPoint B4G2 - Lefel Uwch<br>• Beiro a phapur<br>• Cyfrifiadur<br>• Adnodd B4G2: Taflenni data (os nad oes gennych gyfrifiadur) |
| **3** | **Herio popeth**<br><br>**Gweithgaredd Agoriadol:** Pa warchodaeth sydd ar gael i bobl sy'n chwarae gemau ar-lein? Cyfrifoldeb pwy yw hyn?<br>**Gweithgaredd:** Ysgrifennwch ddeddf chwarae gemau. Beth fydd angen i chi ei ystyried? Ysgrifennwch ddiffiniad ar gyfer chwarae gemau'n gyfrifol.<br><br>**Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:**<br>CW01-02, CW04-05, CW08-11, CW14-22, CW24, CW27, CW30, CW33<br>**Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:**<br>Iechyd a Llesiant<br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | • B4G3<br>• PowerPoint B4G3: Herio Popeth<br>• Beiro a phapur<br>• Cyfrifiadur (dewisol) |
| **4** | **Ti'n Gêm?**<br>**Gweithgaredd agoriadol:** Beth yw dyled? Myfyrwyr i feddwl am ddyled a'r canlyniadau. Beth allai ddigwydd os bydd rhywun yn colli ei arian i gyd?<br>**Gweithgaredd:** | • BG4<br>• PowerPoint B4G4: Ti'n Gêm?<br>• Beiro a phapur |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/Ebrill21

| | | |
|---|---|---|
| | Ewch ati i greu gêm/cwis i edrych yn fanwl ar arian a dyledion mewn perthynas â gamblo. Beth yw'r pethau i'w hystyried a sut gallwch chi wneud yn siŵr nad ydych chi'n gwario gormod ar gemau ac mewn gemau?<br><br>**Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:**<br>CW02-05, CW07, CW11, CW14, CW18, CW20, CW22, CW25, CW27, CW29-30, CW33<br>**Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:**<br>Iechyd a Llesiant<br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | |
| **5** | **Trafod Chwarae Gemau**<br>**Gweithgaredd Agoriadol:**<br>Beth yw chwarae gemau mewn ffordd iach a beth yw chwarae gemau problemus? Gofynnwch i'r myfyrwyr rannu syniadau a chytuno ar ddatganiad ar gyfer pob un.<br>**Gweithgaredd:** Gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried – Beth sy'n gwneud i bobl fod eisiau chwarae gêm? Pryd mae'n dod yn broblem a beth yw'r arwyddion i gadw llygad amdanyn nhw? Ymchwiliwch, casglwch ddeunydd ffynhonnell, data a thystiolaeth arall i greu arddangosfa/cyflwyniad/gwasanaeth ar gyfer y dosbarth,<br><br>**Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:**<br>CW01-05, CW09, CW13-14, CW18, CW20-22, CW24-27, CW29<br>**Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:**<br>Iechyd a Llesiant<br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | • B4G5<br>• PowerPoint B4G5: Trafod Chwarae Gemau<br>• Beiro a phapur<br>• Cyfrifiadur (mae taflen ddata ar gael os yw cael mynediad at TG yn broblem)<br>• Adnodd B4G5: Taflen waith y wers<br>• B4G5: Taflen ddata |
| **6** | **Chwarae Gêm neu Beidio?**<br>**Gweithgaredd agoriadol:** Y myfyrwyr i edrych ar eu dyddiadur gweithgareddau. Dylai'r athro gyflwyno rhywfaint o ystadegau cenedlaethol sy'n edrych ar amser chwarae gemau yn yr ystod oedran hon. Mae enghreifftiau'n cynnwys amser ar-lein, prynu o fewn y gêm ac arian sy'n cael ei wario. Dylai'r myfyrwyr awgrymu faint o amser sy'n iawn a pha weithgareddau sy'n iawn, yn gysylltiedig â gemau ac fel arall.<br>**Gweithgaredd:** Dylai myfyrwyr greu amserlen ar gyfer rheoli eu hobïau a'u gweithgareddau. Dylen nhw ysgrifennu pum addewid i'w helpu i leihau'r niwed posibl o ganlyniad i chwarae gemau, ac egluro eu hatebion. | • B4G6<br>• Beiro a phapur<br>• Taflen ddata ar gyfer y dasg gychwynnol<br>• PowerPoint B4G6: Chwarae Gêm neu Beidio? |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/Ebrill21
YGAM resources

| | | |
|---|---|---|
| | **Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:**<br>CW02, CW04, CW13, CW17-18, CW20, CW25-29<br>**Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:**<br>Iechyd a Llesiant<br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

# B4G1: GRYM Y GEMAU

**Mae'r wers hon yn ymwneud â her 6.5 yn y llyfryn Gwybodaeth:** Pa fesurau sydd ar waith ar hyn o bryd i helpu pobl i gadw'n ddiogel wrth chwarae gemau? Ewch ati i greu adnodd cefnogi (taflen/poster ac ati) y gall pobl ifanc gael gafael arno er mwyn cael help ac arweiniad.

## Amcanion Dysgu:

- Deall sut rydych chi a'ch cyd-ddisgyblion yn teimlo am chwarae gemau ar-lein
- Gallu casglu a chyflwyno gwybodaeth am sut gallwch chi a'ch cyd-ddisgyblion gadw rheolaeth wrth chwarae gemau ar-lein

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n deall y rheolyddion sydd ar gael i mi wrth chwarae gemau ar-lein
- Rydw i'n gallu argymell ffyrdd o gadw'n ddiogel wrth chwarae gemau
- Rydw i'n gallu myfyrio ar fy ymddygiad fy hun ac ymddygiad pobl eraill, gan egluro beth rydw i'n ei wneud a sut rydw i'n teimlo
- Rydw i'n deall beth yw dulliau rheoli i rieni.
- Rydw i'n gallu cyflwyno'r wybodaeth rydw i wedi'i chasglu.

## Adnoddau:

- PowerPoint B4G1 – Grym y Gemau
- B4G1: Adnodd: Dyddiadur (dewisol)
- Beiro a phapur
- Deunyddiau celf ar gyfer y daflen

## Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW02, CW04-05, CW09-10, CW13, CW15, CW17-18, CW20, CW26-27, CW29

## Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel a sefydlu rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio. Efallai yr hoffech gael cyngor gan Arweinydd Diogelu Dynodedig eich sefydliad.


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/Ebrill21

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B4; hon yw'r rhan gyntaf o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**

<table>
<tr><th>I ddechrau</th><th>Prif ran</th><th>Pawb gyda'i gilydd</th></tr>
<tr>
<td>Gweithgaredd: Dadl - Cytuno/Anghytuno<br><br>Darllenwch y datganiadau a gofynnwch i'r myfyrwyr sefyll os ydyn nhw'n cytuno/dal i eistedd os ydyn nhw'n anghytuno. Gofynnwch iddyn nhw roi rhesymau dros eu hymatebion.<br>• Mae chwarae gemau yn ffordd dda o dreulio eich amser<br>• Does dim risgiau wrth chwarae gemau ar-lein<br>• Mae chwarae gemau'n broffesiynol yn ddewis gyrfa da<br>• Mae chwarae gemau yn gynhwysol ac yn gymdeithasol<br>• Mae chwarae gemau ar-lein yn fwy diogel na chwarae y tu allan<br>• Dylai chwarae gemau ymwneud â sgiliau, dim prynu crwyn/pecynnau a chratiau trysor<br>• Mae trysorflychau ac eitemau prin yn gwneud i chi edrych yn fwy cŵl oherwydd bod gan eich ffrindiau nhw</td>
<td>Gweithgaredd: Cyngor Campus<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr greu cawod meddwl grŵp ar gyfer eu byrddau, gan roi manylion yr holl bethau gallwn ni eu gwneud i gadw rheolaeth dros y gemau rydyn ni'n eu chwarae a sut rydyn ni'n chwarae ar-lein/ar ein gemau.<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr ddewis y pump peth pwysicaf iddyn nhw a chreu taflen CYNGOR CAMPUS.<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu pum cyngor i rymuso chwaraewyr i gadw rheolaeth.<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr gadw dyddiadur dros y pythefnos nesaf i edrych yn fanwl ar y math o weithgareddau maen nhw'n ymwneud â nhw a faint o amser maen nhw'n ei dreulio ar bob un.</td>
<td>Gweithgaredd: Rydw i'n falch o gyflwyno...<br><br>Yr athro i ofyn i'r grwpiau gyflwyno eu canfyddiadau.<br><br>Yr athro i grynhoi'r gweithgaredd gwaith cartref.<br><br>Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.<br><br>Dewisiadau cyfeirio: GamCare a Childline.</td>
</tr>
</table>


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

# B4G1: ADNODDAU

## Gwaith cartref – cadw dyddiadur

**Cofnodwch faint o amser rydych chi'n ei dreulio ar unrhyw fath o gyfryngau cymdeithasol a gemau cymdeithasol, yn ogystal ag unrhyw hobïau a gweithgareddau eraill. Sut mae'r amser sy'n cael ei dreulio ar-lein yn cymharu â gweithgareddau eraill? Pa gasgliadau allwch chi ddod iddyn nhw?**

| Diwrnod/Dyddiad | Gweithgaredd | Amser a dreuliwyd |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl


YGAM resources

# B4G2: LEFEL UWCH

**Mae'r wers hon yn ymwneud â her 2.8 yn y llyfryn Gwybodaeth:** Ymchwiliwch i gêm sy'n boblogaidd yn eich dosbarth. Archwiliwch y tebygolrwydd o brynu eitem/chwaraewr penodol. Pa mor debygol ydych chi o gael yr 'eitem ddelfrydol'? Ewch ati i greu taflen wybodaeth i roi gwybod i chwaraewyr am y tebygolrwydd y byddan nhw'n cael yr eitem maen nhw'n dymuno ei chael.

## Amcanion Dysgu:

- Deall sut rydych chi a'ch cyd-ddisgyblion yn teimlo am brynu o fewn y gêm
- Gallu gwneud ymchwil a chyflwyno gwybodaeth am gemau penodol a'r tebygolrwydd o gael eitemau o fewn y gêm

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n deall yr opsiynau i brynu/ennill eitemau o fewn gemau
- Rydw i'n deall tebygolrwydd mewn perthynas â gemau penodol
- Rydw i'n gallu creu taflen wybodaeth i hysbysu ac addysgu eraill
- Rydw i'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am chwarae gemau fy hun

## Adnoddau:

- PowerPoint B4G2 - Lefel Uwch
- Adnodd B4L2: taflen ddata
- Beiro a phapur
- Cyfrifiadur
- Taflenni gwybodaeth (os nad oes gennych gyfrifiadur)

## Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW02-04, CW09, CW11, CW14, CW16-18, CW27, CW29, CW33

## Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel a sefydlu rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio. Efallai yr hoffech gael cyngor gan Arweinydd Diogelu Dynodedig eich sefydliad.


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/Ebrill21

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B4; hon yw'r ail ran o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**

| I ddechrau | Prif ran | Pawb gyda'i gilydd |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd: Amser siarad - Pa gemau wyt ti'n eu chwarae?**<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr restru'r gemau maen nhw'n eu chwarae. Ydyn nhw'n talu i chwarae ar-lein/ mewn fforymau ac ati? Sut maen nhw'n dod yn eu blaenau wrth chwarae gemau? Ydyn nhw'n prynu eitemau i helpu? A yw'r awydd i fynd i lefel uwch yn gwneud iddyn nhw fod eisiau prynu eitemau mewn gemau?<br><br>Pa emosiynau maen nhw'n eu profi wrth chwarae gemau? Munud o sgriblo. | **Gweithgaredd ymchwil: Ymchwiliwch i gêm boblogaidd yn eich dosbarth.**<br><br>DS** Bydd angen i chi gael mynediad at gyfrifiaduron/tabledi/gliniaduron neu gallai'r athro argraffu taflenni data ar gyfer y pump/deg gêm fwyaf poblogaidd.<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr ymchwilio i un gêm o'u dewis.<br>Archwiliwch y tebygolrwydd o brynu eitem/chwaraewr. Pa mor debygol ydyn nhw o gael yr 'eitem ddelfrydol'?<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr greu taflen wybodaeth i roi gwybod i chwaraewyr am y tebygolrwydd y byddan nhw'n cael yr eitem maen nhw'n dymuno ei chael. | **Gweithgaredd: Meddwl, Paru, Rhannu**<br><br>Archwiliwch y tebygolrwydd o gael eitem benodol – a yw'r myfyrwyr yn fwy neu'n llai tebygol o wario eu harian ar y rhain?<br><br>Yr athro i grynhoi'r gweithgaredd gwaith cartref.<br><br>**Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.**<br><br>**Dewisiadau cyfeirio: GamCare a Childline.** |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/Ebrill21
YGAM resources

# TAFLEN DDATA B4G2: TEBYGOLRWYDD MEWN GEMAU

| **Fifa 20** | **Eitem/chwaraewr a ddymunir:**<br>87+ o gardiau, Ronaldo, Messi, chwaraewyr 'Ones to Watch' |
|---|---|
| <br>(Gwybodaeth gan Goal.com) | **Gwybodaeth bwysig:** Mae Pecynnau Efydd, Arian ac Aur bob amser ar gael i'w prynu, ond mae cynigion bob tymor ar gyfer pecynnau prinnach sy'n rhoi gwell cyfleoedd i gael chwaraewyr â sgôr uchel.<br><br>**Tebygolrwydd:**<br>2.4% - y siawns o gael chwaraewr 90+ yn y Pecyn Aur<br>6.5% - y siawns o gael chwaraewr 87+ yn y Pecyn Chwaraewr Prin<br>7.9% - y siawns o gael chwaraewr 82+ yn y Pecyn Aur<br>3.4% - y siawns o gael chwaraewr 74+ yn y Pecyn Arian<br>12% - y siawns o gael chwaraewr 64+ yn y Pecyn Efydd<br>1 allan o 150'000 - y siawns o gael Ronaldo<br>1 allan o 60'000 - y siawns o gael Messi<br>Llai na 1% - o siawns o gael chwaraewyr 'Ones to Watch' |

| **Overwatch** | **Eitem/chwaraewr a ddymunir:**<br>Eitemau 'Epic' a 'Legendary' sy'n dod o'r Trysorflychau. |
|---|---|
| <br>(Gwybodaeth gan Mashable.com) | **Gwybodaeth bwysig:** Mae trysorflychau yn gollwng amrywiaeth o eitemau sy'n cynnwys eitemau 'Common', 'Rare', 'Epic' a 'Legendary'. Mae'n rhaid i chwaraewyr brynu pecynnau mewn swmp, sy'n golygu bod ganddyn nhw lawer o eitemau maen nhw'n berchen arnyn nhw'n barod, yn ogystal ag eitem brinnach efallai.<br><br>**Tebygolrwydd:**<br>18.2% - y siawns o gael eitem 'Epic' mewn trysorflwch.<br>7.4% - y siawns o gael eitem 'Legendary' mewn trysorflwch. |

| **Roblox** | **Eitem/chwaraewr a ddymunir:** Hetiau, pennau, wyau, clymau prin |
|---|---|
| <br>(Gwybodaeth gan Goal.com) | **Gwybodaeth bwysig:** Mae Roblox yn llwyfan sy'n galluogi chwaraewyr i greu eu gemau eu hunain neu i chwarae o fewn gemau pobl eraill. Mae'r gêm am ddim ond mae angen i chi brynu arian ar-lein neu dalu am aelodaeth i gael gafael ar eitemau.<br><br>**Tebygolrwydd:**<br>Mae'r tebygolrwydd o gael eitemau prin yn newid yn dibynnu ar y gêm/llwyfan rydych chi'n ei chwarae. Gallai fod yn 20%, gallai fod yn 1%. Does dim tebygolrwydd penodol, sy'n golygu nad ydych chi'n gwybod yn aml a yw'n debygol ai peidio. |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

| Fortnite | Eitem/chwaraewr a ddymunir: Crwyn, arfau |
| --- | --- |
| <br>(Gwybodaeth gan GameGuideHQ.com ac InfoFortnite.com) | **Gwybodaeth bwysig:** Mae Fortnite yn llwyfan sy'n caniatáu i chwaraewyr chwarae yn erbyn pobl eraill mewn brwydr lle mae un yn fuddugol, ond mae hefyd yn caniatáu i grwpiau llai chwarae ac yn rhoi cyfle i adeiladu a chreu bydoedd. Gall y chwaraewr brynu eitemau fel crwyn gan dalu ag arian go iawn neu rith arian. Mae crwyn yn brin yn y gêm gan mai dim ond am hyn a hyn o amser maen nhw ar gael, ac mae prinder y croen yn symbol o brofiad ac ymrwymiad y chwaraewr.<br><br>**Tebygolrwydd:**<br>Arfau ac eitemau eraill:<br>• Y siawns o gael taflegryn annel 'Legendary' - 0.038%.<br>• Y siawns o gael gwn bach 'Epic' - 1.35%.<br>• Y siawns o gael reiffl 'Burst' glas - 1.83%.<br>• Y siawns o gael pysgodyn aur 'Mythical' - 0.0001%. |

| Animal Crossing: Pocket Camp | Eitem/chwaraewr a ddymunir: Cymeriadau, anifeiliaid prin fel chwilod |
| --- | --- |
| <br>(Gwybodaeth gan Gamerant.com ac animalcrossing. fandom.com) | **Gwybodaeth bwysig:** Mae gan y gêm rith arian o'r enw 'Leaf Tickets', ac mae modd ennill yr arian yma drwy chwarae gemau neu ei brynu gydag arian go iawn. Gellir gwario'r arian yma i ddatgloi cymeriadau fel Tom Nook a KK Slider. Mae gan y gêm drysorflychau ar ffurf bisgedi lwcus, sy'n datgloi eitemau premiwm.<br><br>**Tebygolrwydd:**<br>• Mae dros 10% o'r trysorflychau yn cynnwys eitemau cyffredin, felly maen nhw'n ddiwerth.<br>• Mae rhai trysorflychau yn cynnwys dywediadau neu hyd yn oed yn diflannu.<br>• Ychydig iawn sy'n cynnwys eitemau arbennig.<br>• Mae rhai eitemau prin yn costio hyd at 5000 o glychau, yn hytrach na phris mwy cyffredin 50 o glychau. |

| Apex Legends | Eitem/chwaraewr a ddymunir: Cymeriadau, crwyn, set 'Heirloom' |
| --- | --- |
| <br>(Gwybodaeth gan pcgamer.com ac appuals.com) | **Gwybodaeth bwysig:** Defnyddir 'Legend Tokens', 'Craft Metals' a darnau arian 'Apex' i brynu eitemau fel pecynnau, arfau, cymeriadau a chrwyn.<br><br>**Tebygolrwydd:**<br>• Y siawns o gael set 'Heirloom' prin: <1%.<br>• Y siawns o gael arf 'Wingman': <3%.<br>• Y siawns o gael arf 'Longbow': <1%. |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/Ebrill21

# B4G3: HERIO POPETH

**Mae'r wers hon yn ymwneud â Her Perchnogaeth Chwarae Gemau Cynradd yn y llyfryn Gwybodaeth:** Creu Deddf Chwarae Gemau sy'n nodi'r rheolau a'r rheoliadau ar gyfer chwarae gemau'n fwy diogel.

## Amcanion Dysgu:

- Deall beth mae defnyddiwr yn ei olygu
- Deall beth mae cyfrifoldeb yn ei olygu a phwy sy'n gyfrifol am ddiogelu defnyddwyr
- Gallu nodi mesurau diogelu ar gyfer defnyddwyr

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n deall beth mae defnyddiwr yn ei olygu
- Rydw i'n gallu diffinio cyfrifoldeb
- Rydw i'n gallu awgrymu sut i ddiogelu defnyddwyr
- Rydw i'n gallu gweithio gydag eraill i ddeall eu safbwynt

## Adnoddau:

- PowerPoint B4G3: Herio Popeth
- Beiro a phapur
- Cyfrifiadur (dewisol)

## Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW01-02, CW04-05, CW08-11, CW14-22, CW24, CW27, CW30, CW33

## Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel a sefydlu rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio. Efallai yr hoffech gael cyngor gan Arweinydd Diogelu Dynodedig eich sefydliad.

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B4; hon yw'r drydedd rhan o chwe gwers.  Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/Ebrill21

| I ddechrau | Prif ran | Pawb gyda'i gilydd |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd: Pwy sy'n gyfrifol beth bynnag?**<br><br>Trafodaeth gyda'r dosbarth cyfan: Pa warchodaeth sydd ar gael ar gyfer chwarae gemau ar-lein? Gallech gofnodi hyn fel cawod meddwl neu ofyn i'r myfyrwyr ysgrifennu atebion ar nodiadau post-it.<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn parau i drafod pwy sy'n gyfrifol am ddiogelu chwaraewyr. Gwnewch gofnod o'r atebion a'u rhannu â'r dosbarth. | **Gweithgaredd: Y Ddeddf Chwarae Gemau**<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu deddf chwarae gemau (naill ai drwy weithio mewn parau neu'n unigol).<br><br>Anogwch y myfyrwyr i feddwl am yr hyn y mae angen iddyn nhw ei gynnwys ac yna ysgrifennu hynny ar ffurf dogfen swyddogol. Er enghraifft, Cyfrifoldeb y gwneuthurwr? Llwyfannau chwarae gemau/llwyfannau ffrydio? Gwirio oedran?<br>Prynu o fewn y gêm?<br>Y tebygolrwydd o gael eitemau penodol?<br>Trysorflychau - ie neu na?<br>Amser a dreulir?<br>Sgoriau PEGI?<br>Defnyddwyr?<br><br>DS: Rhaid i gemau sy'n cynnwys trysorflychau/microdrafodion gynnwys label rhybudd 'Prynu o fewn y Gêm – yn cynnwys eitemau ar hap.' Mae'r canllawiau hyn wedi dod gan ERSB ac maen nhw'n berthnasol i'r DU ac Ewrop. Mae'r wybodaeth hon yn wir ym mis Ebrill 2020 | **Gweithgaredd: Rydw i'n falch o gyflwyno...**<br><br>Gofynnwch i'r plant gyflwyno eu gwaith mewn parau neu yn unigol.<br><br>Defnyddiwch rywfaint o'r gwaith mewn arddangosfa yn yr ystafell ddosbarth.<br><br>Gallech hyd yn oed bleidleisio ar ba Ddeddf fydd yn mynd drwy'r senedd – byddai hyn yn gyfle i siarad am Lywodraeth a democratiaeth.<br><br>**Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.**<br><br>**Dewisiadau cyfeirio: GamCare a Childline.** |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

# B4G4: TI'N GÊM?

Ewch ati i greu cwis i ddysgu pobl am bwysigrwydd deall arian a dyled sy'n berthnasol i chwarae gemau. Neu, gallech wneud y gweithgaredd hwn fel wal graffiti, gyda'r plant yn rhoi eu syniadau ar nodiadau post-it ar arddangosfa ehangach.

## Amcanion Dysgu:

- Deall beth mae dyled yn ei olygu
- Deall sut gall dyled effeithio ar bobl
- Deall sut mae plant a phobl ifanc yn talu am nwyddau mewn gemau

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n deall y term dyled ac rydw i'n gallu cynnig diffiniad
- Rydw i'n deall sut gallai dyled effeithio ar bobl
- Rydw i'n deall microdrafodion mewn gemau

## Adnoddau:

- PowerPoint B4G4: Ti'n Gêm?
- Beiro a phapur

## Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW02-05, CW07, CW11, CW14, CW18, CW20, CW22, CW25, CW27, CW29-30, CW33

## Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel a sefydlu rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio. Efallai yr hoffech gael cyngor gan Arweinydd Diogelu Dynodedig eich sefydliad.

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B4; hon yw'r bedwaredd rhan o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/Ebrill21

| I ddechrau | Prif ran | Pawb gyda'i gilydd |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd: Sgriblo - Beth yw dyled?**<br>**2 funud yn sgriblo:**<br><br>Beth yw dyled? 2 funud i ysgrifennu syniadau am beth yw dyled.<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am ddyled a'r canlyniadau. Beth allai ddigwydd os bydd rhywun yn colli ei arian i gyd? | **Gweithgaredd: Cwis rhyngweithiol**<br><br>Gyda'r myfyrwyr: Trafodwch yr hyn y mae angen i bobl fod yn ymwybodol ohono yng nghyswllt arian a dyled. Beth yw canlyniadau dyled? Sut gallai rhywun sy'n chwarae gemau fynd i ddyled? Ydyn nhw bob amser yn gwario eu harian eu hunain – beth yw canlyniadau gwario arian rhywun arall/heb ganiatâd?<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn grwpiau o 2 neu 3 i greu cwis i ddysgu pobl am bwysigrwydd deall arian a dyled sy'n berthnasol i chwarae gemau. Efallai y byddwch yn dewis gwneud hyn fel gweithgaredd i'r dosbarth cyfan. Neu, gallech greu bwrdd graffiti. Rhowch nodiadau post-it i'r plant a gofyn iddyn nhw ysgrifennu syniadau ac yna eu rhoi ar y bwrdd graffiti.<br><br>*Beth yw'r pethau i'w hystyried a sut gallwch chi wneud yn siŵr nad ydych chi'n gwario gormod ar gemau ac mewn gemau? Meddyliwch am ficrodrafodion/trysorflychau ac ati.* | **Gweithgaredd: Rydw i'n falch o gyflwyno...**<br><br>Gofynnwch i'r plant gyflwyno eu gwaith mewn parau neu yn unigol. Gallech gynnal cwis dosbarth.<br><br>Defnyddiwch rywfaint o'r gwaith mewn arddangosfa yn yr ystafell ddosbarth.<br><br>Gwaith ymestynnol/gwaith cartref – gallai'r myfyrwyr roi eu cwis i rywun arall ei gwblhau, fel aelod arall o'r dosbarth, aelod o'r teulu neu ffrind y tu allan i'r dosbarth.<br><br>**Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.**<br><br>**Dewisiadau cyfeirio: GamCare a Childline.** |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

# B4G5: TRAFOD CHWARAE GEMAU

**Mae'r wers hon yn ymwneud â her 6.10 yn y llyfryn Gwybodaeth:** Beth sy'n gwneud i bobl fod eisiau chwarae gêm a/neu gamblo? Pryd mae'n dod yn broblem a beth yw'r arwyddion? Ewch ati i wneud ymchwil a chasglu deunydd ffynhonnell, data a thystiolaeth arall.

## Amcanion Dysgu:

- Deall cymhellion pobl sy'n chwarae gemau
- Deall sut gall pobl fwynhau chwarae gemau'n ddiogel
- Adnabod arwyddion niwed i sy'n gysylltiedig â chwarae gemau

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n deall pam mae pobl yn hoffi chwarae gemau
- Rydw i'n deall sut gall pobl fwynhau chwarae gemau'n ddiogel
- Rydw i'n adnabod arwyddion niwed

## Adnoddau:

- PowerPoint B4G5: Trafod Chwarae Gemau
- Taflen ddata B4G5
- Beiro a phapur
- Cyfrifiadur (mae taflen ddata ar gael os yw cael mynediad at TG yn broblem)
- Taflen waith y wers

## Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW01-05, CW09, CW13-14, CW18, CW20-22, CW24-27, CW29

## Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel a sefydlu rheolau sylfaenol. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol, a allai ysgogi emosiynau. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio.

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B4; hon yw'r bumed ran o chwe gwers.  Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/Ebrill21

| I ddechrau | Prif ran | Pawb gyda'i gilydd |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd: Trafod Chwarae Gemau**<br><br>Rhowch adnoddau i fyfyrwyr restru chwarae gemau mewn ffordd iach a chwarae gemau mewn ffordd niweidiol. Gofynnwch iddyn nhw weithio mewn parau i restru cynifer o eiriau ag y bo modd o dan bob pennawd. Gallech osod amserydd.<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr rannu eu banciau geiriau.<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr helpu i ysgrifennu diffiniad ar gyfer pob un a chytuno ar hynny fel dosbarth.<br><br>Beth yw chwarae gemau mewn ffordd iach a beth yw chwarae gemau mewn ffordd niweidiol? Gofynnwch i'r myfyrwyr rannu syniadau a chytuno ar ddatganiad ar gyfer pob un. | **Gweithgaredd: Beth sy'n cymell pobl i chwarae gemau?**<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr pam fod pobl yn chwarae gemau. Sut mae gwybod pan fydd chwarae gemau yn mynd yn niweidiol?<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr ymchwilio i arwyddion anhwylder chwarae gemau. Dylen nhw gasglu data a deunydd ffynhonnell. Os nad oes modd defnyddio TG, gallech ddefnyddio'r daflen ddata. Gallai myfyrwyr ddefnyddio canfyddiadau i gefnogi eu gwaith<br>• Gwasanaeth dosbarth<br>• Cyflwyniad<br>• Arddangosfa ar wal | **Gweithgaredd: Rho bump i mi...**<br><br>Gan ddefnyddio templed o law, rhestrwch bump o bobl y gallech ofyn iddyn nhw am help.<br><br>**Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.**<br><br>**Dewisiadau cyfeirio: GamCare a Childline.** |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

# B4G6: CHWARAE GÊM NEU BEIDIO?

**Mae'r wers hon yn ymwneud â Her 'Cymysgu'r Cyfan' Cynradd yn y llyfryn Gwybodaeth:** Beth allwn ni ei wneud yn lle chwarae gemau i sicrhau cydbwysedd rhwng ein hamser a'n harian? Beth arall allen ni ei wneud i sicrhau cydbwysedd o ran ein hamser? Meddyliwch am bum peth rydych chi'n mynd i addo eu newid yn eich amserlen wythnosol.

## Amcanion Dysgu:

- Deall beth mae niwed sy'n gysylltiedig â chwarae gemau yn ei olygu
- Deall sut i gael ffordd gytbwys o fyw

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n deall beth mae niwed sy'n gysylltiedig â chwarae gemau yn ei olygu ac rydw i'n gallu cynnig diffiniad
- Rydw i'n gallu cynllunio fy ngweithgareddau i sicrhau eu bod yn gytbwys
- Rydw i'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am fy ffordd o fyw

## Adnoddau:

- Beiro a phapur
- B4G6: Taflen ddata ar gyfer y dasg gychwynnol
- PowerPoint B4G6: Chwarae Gêm neu Beidio?

## Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW02, CW04, CW13, CW17-18, CW20, CW25-29

## Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel a sefydlu rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio. Efallai yr hoffech gael cyngor gan Arweinydd Diogelu Dynodedig eich sefydliad.

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B4; hon yw'r chweched ran o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/Ebrill21

| I ddechrau | Prif ran | Pawb gyda'i gilydd |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd: Fy nyddiadur**<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr edrych yn ôl ar eu dyddiadur gweithgareddau (gwaith cartref blaenorol neu gellid gwneud hyn fel tasg gychwynnol ar sail yr wythnos flaenorol).<br><br>Dylai'r athro gyflwyno rhywfaint o ystadegau cenedlaethol sy'n edrych ar amser chwarae gemau yn yr ystod oedran hon. Mae enghreifftiau'n cynnwys amser ar-lein, prynu o fewn y gêm ac arian sy'n cael ei wario. Dylai'r myfyrwyr awgrymu faint o amser sy'n iawn a pha weithgareddau sy'n iawn, yn gysylltiedig â gemau ac fel arall. | **Gweithgaredd: Amser pwyso a mesur**<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr greu amserlen i reoli eu gweithgareddau a'u hobïau er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw ffordd gytbwys o fyw. Pa fân newidiadau fydden nhw'n gallu eu gwneud?<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr wneud pum addewid i sicrhau eu bod yn rheoli eu hamser yn chwarae gemau a'u bod yn ddiogel ar-lein. | **Gweithgaredd: Rydw i'n falch o gyflwyno**<br><br>Gofynnwch i'r plant rannu eu pum addewid.<br><br>Defnyddiwch rywfaint o'r gwaith mewn arddangosfa yn yr ystafell ddosbarth.<br><br>**Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.**<br><br>**Dewisiadau cyfeirio: GamCare a Childline.** |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

# TAFLEN DDATA B4: YSTADEGAU ALLWEDDOL



- Mae tua 37 miliwn o bobl yn y DU yn chwarae gemau.
- Roedd gwariant cwsmeriaid y DU ar gemau tua £5.7 biliwn yn 2018.
- Roedd yr arian a wnaed o drysorflychau yn 2018 yn $30 biliwn.
- Mae 95% o blant wedi chwarae gêm ar-lein.
- Ar gyfartaledd, mae plant yn treulio 2 awr y dydd ar gemau yn ystod yr wythnos a 5 awr ar y penwythnos.
- Ar y cyfan, mae bechgyn yn treulio mwy o amser na merched yn chwarae gemau
- Mae plant ddwywaith yn fwy tebygol o siarad â ffrindiau ar-lein, yn hytrach na phobl ddieithr/pobl maen nhw wedi cwrdd â nhw drwy'r gêm.
- Mae 28% o blant wedi prynu rhywbeth mewn gêm heb i'w rhieni/gofalwyr wybod am hynny.

## Cyfeiriadau:


- InternetMatters (2020). *Online Gaming*. Ar gael yn: https://www.internetmatters.org/resources/online-gaming-advice [Cyrchwyd Mawrth 2020].
- UKIE (2019). *The Games Industry in Numbers.* Ar gael yn: < https://ukie.org.uk/research> [Cyrchwyd Mawrth 2020].



©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/Ebrill21

YGAM resources